YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

# Tymor y Gwanwyn 2025 – Dosbarth Y Tonnau

Os oes gennych unrhyw arbenigedd yn y maes, byddwn yn falch o dderbyn eich cefnogaeth.

## Cymru Gwlad y Gân

Gall pawb fod yn gerddor!

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion! www.yggbrynymor.co.uk Dilynwch ni ar 'X' hefyd! @YGGBrynymor1**

### Y Dyniaethau

- Dysgu am bwysigrwydd canu mewn crefyddau gwahanol.
- Dysgu am bwysigrwydd cerddoriaeth, dawnsiau, caneuon a barddoniaeth Gymreig a'r Eisteddfod.

### Celfyddydau Mynegiannol

- Archwilio ystod o offerynnau cerddorol.
- Dysgu sut i ddefnyddio offerynnau taro.
- Mwynhau canu ystod o ganeuon amrywiol.
- Ymateb i gerddoriaeth trwy ddawns a dysgu am elfennau cerddorol syml.
- Dysgu am gerddorion enwog o Gymru.
- Mwynhau cynllunio, ymarfer a pherfformio i gynulleidfa.
- Gwerthuso ein perfformiadau a myfyrio.

### Iechyd a Lles

- Archwilio ein teimladau trwy wrando ac ymateb i gerddoriaeth
- Datblygu ein ffitrwydd trwy ddawnsio
- Deall y gall cerddoriaeth gael effaith ar ein lles meddyliol
- Datblygu ein hyder trwy berfformio i eraill
- Deall sut i gadw'n ddiogel ar-lein

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Sut mae sain yn cael ei greu a sut y mae'n dod o ystod o ffynonellau
- Archwilio'n syml sut y mae sain yn teithio
- Creu offeryn gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau
- Trafod nodweddion deunyddiau wrth ddidoli a dosbarthu offerynnau
- Cyfathrebu ein syniadau trwy gyfrwng amrywiol ddulliau digidol, gan gynnwys cyfansoddi cerddoriaeth.

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Creu cornel chwarae 'Y Llwyfan' a mwynhau cyfansoddi, arbrofi a gwrando ar gerddoriaeth
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon yn cynnwys Pedr a'r Blaidd.
- Dal ati ddatblygu ein sgiliau darllen
- Dysgu am gyflythreniad ac odl
- Ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau, gan gynnwys barddoniaeth sy'n defnyddio odl
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau'n gywir.

Bydd bwydlen gwaith cartref y tymor i'w ddarganfod ar dudalen gwe y dosbarth.

Ymweliadau/Profiadau:
Gwahodd ymwelwyr i'r ysgol i berfformio.
Ymweliad gan y 'Welsh brass Trio.'
Ymweliad â Neuadd y Brangwyn.

### Mathemateg a Rhifedd

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau
- Ymarfer a gwella ein sgiliau adio a tynnu.
- Enwi ac adnabod priodweddau siâp
- Ymarfer sgiliau mesur pwysau gan ddefnyddio unedau ansafonol
- Chwarae gemau mathemateg pen.
- Dysgu sut i drefnu a defnyddio data.

YSGOL GYMRAEG BRYN Y MÔR

CADW IAITH CADW GWLAD

Tymor y Gwanwyn 2025 – Dosbarth Y Tonnau

# Bant â ni i gynllunio!

Ein bwriad yn yr uned ddysgu hon yw meithrin gwerthfawrogiad o dreftadaeth gerddorol a diwylliannol gyfoethog Cymru. Anelwn at ysbrydoli ein disgyblion i fod yn greadigol, chwilfrydig ac arloesol, fel eu bont yn medru archwilio a mynegi syniadau'n hyderus. Trwy ymgysylltu â thraddodiadau a chyflawniadau cerddorion a chyfansoddwyr Cymru, gobeithiwn feithrin empathi a pharch tuag at gyfraniadau diwylliannol eraill. Trwy ddylunio a chreu ein hofferynnau cerddorol ein hunain a pherfformio gyda'n gilydd, gobeithiwn ddatblygu cydweithrediad, sgiliau cyfathrebu, a hunanhyder. Erbyn diwedd yr uned hon, gobeithiwn feithrin ymdeimlad o falchder yn ein hunaniaeth ddiwylliannol a gwerthfawrogiad o rôl cerddoriaeth yn ein bywydau.

Dysgu caneuon newydd- Olivia

Fi eisiau creu offeryn - Rowan

Pwy yw enwogion canu a pherfformio Cymru? Olwen

Chwarae offerynnau. Pawb

Ydyn ni yn chwarae pob offeryn yn yr un ffordd? Maeve

